

Fersiwn	2
Dyddiad Diwygio Diwethaf	Hydref 2019



## HS 27

### Polisi Rheoli Clefyd y Lleng Filwyr

Mae'r ddogfen hon ar a gael Saesneg, gweler Control of Legionella Policy



<b>RHEOLI'R DDOGFEN</b>	
<b>ENW'R POLISI</b>	<b>Polisi Rheoli Clefyd y Lleng Filwyn</b>
Adran	Adran Adnoddau Dynokl
Rhi Ffôn	01443 425536
Dyddiad Cychwynnol Cyflwyno'r Polisi	Hydref 2017
Swyddog Diwigio	Mike Murphy
Dyddiad Diwigio	Hydref 2021
Dyddiad yr Aseiad o'r Effaith ar Gydraddoldeb	11 <sup>th</sup> Medi 2017
<b>HANES DIWYGIO</b>	
Dyddiad:	Diwygiwyd gan:
Hydref 2019	Mike Murphy
<b>CYMERADWYO'R DDOGFEN</b>	
Mae'r ddogfen yma wed cael ei chyneradwyo gan:	Dyddiad cymeradwyo:
Uwch Garfan Rheoli Adnoddau Dynol	18 Gorffennaf 2017
Uwch Reolwyr y Cygor	04 Hydref 2017

## CYNNWYS

1. Cyflwyniad .....	1
2. Datganiad Polisi.....	2
3. Cofnodion .....	6
4. Cyngor .....	6
Rhestr Wirio Rheolwyr Safle/Adeilad.....	7

## 1. CYFLWYNIAD

- 1.1 Mae'r polisi yma wedi'i baratoi i ddod i ben â rheoli bacteria Clefyd y Lleng Filwyr mewn systemau dŵr mewn adeiladau ac i gynorthwyo'r Cyngor i gydymffurfio â'i ddyletswyddau o dan Ddeddf Iechyd a Diogelwch yn y Gwaith etc. 1974, Rheoliadau Rheoli Iechyd a Diogelwch yn y Gwaith a Rheoliadau Rheoli Sylweddau Peryglus i Iechyd.
- 1.2 Bydd y polisi yma'n cael ei adolygu bob dwy flynedd neu os bydd unrhyw newidiadau mewn deddfwriaeth, rheoliadau neu ganllawiau'r Awdurdod Gweithredol Iechyd a Diogelwch ac os oes unrhyw beth yn digwydd yn un o adeiladau'r Cyngor sy'n peri pryder ynglŷn â rheoli Clefyd y Lleng Filwyr.
- 1.3 Yn y polisi yma, mae 'eiddo' yn golygu safleoedd ac adeiladau, gan gynnwys unrhyw ran o safle neu adeilad y mae'r Cyngor yn gyfrifol amdano.
- 1.4 Mae bacteria Clefyd y Lleng Filwyr yn achosi salwch tebyg i niwmonia sy'n cael eu galw (gyda'i gilydd) yn 'legionellosis', sy'n cynnwys Clefyd y Lleng Filwyr sef y clefyd mwyaf difrifol, yn ogystal â chyflyrau tebyg ond llai difrifol megis Twymyn Pontiac a Thwymyn Lochgoilhead.

Mae Clefyd y Lleng Filwyr yn fath o niwmonia a allai fod yn angheuol y mae pawb yn agored iddo, er bod y risg yn uwch ar gyfer rhai pobl fel a ganlyn:

- pobl dros 45 oed;
  - pobl sy'n ysmegu a phobl sy'n yfed yn aml iawn;
  - pobl sy'n dioddef o glefyd cronig anadlol neu glefyd yr arenau;
  - unrhyw un sydd â system imiwneidd ddiffygiol.
- 1.5 Mae Clefyd y Lleng Filwyr yn cael ei drosglwyddo drwy fewnanadlu defnynnau bach o ddŵr (erosolau) sy'n cynnwys y bacteria.
  - 1.6 Mae'r bacteriwm legionella pneumophila a bacteria cysylltiedig yn gyffredin mewn ffynonellau dŵr naturiol fel afonydd, llynnoedd a chronfeydd dŵr, ond fel arfer does dim llawer ohonyn nhw. Gan fod bacteria Clefyd y Lleng Filwyr yn gyffredin yn yr amgylchedd, mae modd eu canfod hefyd mewn systemau dŵr pwrpasol, gan gynnwys tyrau oeri, cyddwysyddion anweddu, systemau dŵr poeth ac oer a phyllau sba.

1.7 Mae'r amodau canlynol yn cynyddu'r tebygolrwydd y bydd risg o Glefyd y Lleng Filwyr:

- mae tymheredd y dŵr yn y system gyfan neu ryw ran ohoni rhwng 20-45°C;
- mae'n bosibl creu a gwasgaru defnynnau dŵr, e.e. cawodydd ac erosolau o dyrau oeri;
- mae dŵr yn cael ei storio a/neu ei ail-gylchredeg;
- mae dyddodion a all gynnal twf bacteriol sy'n darparu ffynhonnell o faetholion i'r organeb, e.e. rhwd, slwtsh, cen, deunydd organig a bioffilmiau.

## 2. **DATGANIAD POLISI**

2.1 Mae'r Cyngor yn cydnabod ei ddyletswydd o dan y ddeddfwriaeth uchod i atal neu reoli'r risg o ddod i gysylltiad â Chlefyd y Lleng Filwyr a bydd yn:

- asesu'r risg sy'n deillio o systemau dŵr mewn adeiladau i weithwyr ac eraill;
- cyflwyno a gweithredu mesurau i atal neu reoli'r amodau sy'n caniatáu twf bacteria Clefyd y Lleng Filwyr yn y systemau dŵr hynny;
- monitro'r mesurau rheoli Clefyd y Lleng Filwyr i sicrhau eu bod nhw'n parhau i fod yn effeithiol;
- cadw cofnod o'r asesiadau risg mewn perthynas â Chlefyd y Lleng Filwyr a monitro'r mesurau rheoli mewn ysgrifen neu yn electronig (neu'r ddau);
- cydymffurfio â'r canllawiau sydd wedi'u cynnwys yn nogfennau'r Awdurdod Gweithredol Iechyd a Diogelwch: L8 Clefyd y Lleng Filwyr: Rheoli bacteria Clefyd y Lleng Filwyr mewn systemau dŵr - y Cod Ymarfer cymeradwy a chanllawiau ar y rheoliadau; a HSG 274: Rhannau 1, 2 a 3 - sy'n rhoi arweiniad technegol ar reoli bacteria Clefyd y Lleng Filwyr mewn systemau oeri anweddol, systemau dŵr poeth ac oer a systemau eraill sy'n creu risg, yn y drefn honno.

2.2 Bydd y Cyngor yn trefnu bod ymgynghorydd arbenigol yn cynnal asesiadau risg Clefyd y Lleng Filwyr addas a digonol, ailasesiadau cyfnodol ac archwiliadau gwasanaeth rheolaidd o systemau dŵr ar gyfer pob adeilad.

Bydd y Cyngor, mewn ymgynghoriad â'r ymgynghorydd arbenigol, yn pennu'r cyfnod priodol rhwng yr asesiad risg cychwynnol a'r ailasesiadau, a hefyd pa mor aml y dylid cynnal archwiliadau gwasanaeth mewn unrhyw eiddo penodol.

2.3 Adran Cynnal a Chadw Corfforaethol y Cyngor sy'n gyfrifol am benderfynu pa ymgynghorydd arbenigol i'w gyflogi i gynnal asesiadau risg Clefyd y Lleng Filwyr, ac am benodi'r ymgynghorydd hwnnw, sicrhau bod yr holl asesiadau risg angenrheidiol, yr ailasesiadau cyfnodol a'r ymweliadau gwasanaeth yn cael eu cynnal, gan drefnu'r holl fanylebau contract angenrheidiol a'r dogfennau cysylltiedig, a monitro cydymffurfiaid â chontractau.

2.4 Bydd y Cyngor yn cydymffurfio â'i ddyletswydd i ddod i ben â rheoli Clefyd y Lleng Filwyr gyda chymorth y 'Garfan Clefyd y Lleng Filwyr' a sefydlwyd yn ei Adran Cynnal a Chadw Corfforaethol.

Mae'r modd y bydd y Garfan Clefyd y Lleng Filwyr yn sicrhau bod y Cyngor yn cydymffurfio â'r ddyletswydd yma wedi'i nodi yn ei Ddogfen Rheoli Gweithdrefnau Clefyd y Lleng Filwyr mewn Systemau Dŵr.

2.5 Bydd pob swyddog yn y Garfan Clefyd y Lleng Filwyr yn cael yr hyfforddiant angenrheidiol i sicrhau eu bod nhw'n gymwys ym mhob mater sy'n ymwneud â dod i ben â rheoli Clefyd y Lleng Filwyr mewn adeiladau yn unol â'u swyddogaethau a'u cyfrifoldebau, a bydd cofnodion yn cael eu cadw o hyfforddiant o'r fath.

2.6 Bydd dyletswyddau'r Garfan Clefyd y Lleng Filwyr yn cynnwys:

- cysylltu, yn ôl yr angen, â'r ymgynghorydd arbenigol mewn perthynas â'r holl faterion sy'n ymwneud â Chlefyd y Lleng Filwyr yn adeiladau'r Cyngor, mewn ymgynghoriad â rheolwyr safle/adeilad a sicrhau bod unrhyw bryderon sy'n cael eu nodi yn cael sylw;
- sicrhau bod yr ymgynghorwyr arbenigol yn paratoi copïau caled o'r asesiad risg Clefyd y Lleng Filwyr ac yn eu rhoi i bob rheolwr safle/adeilad. Dylen nhw hefyd ddarparu llyfr cofnodi ar gyfer pob adeilad lle bydd modd nodi canfyddiadau asesiadau risg a chynnwys yr holl wybodaeth, rhestrau gwirio a ffurflenni angenrheidiol a fydd yn ei gwneud hi'n bosibl rheoli Clefyd y Lleng Filwyr yn fewnol mewn modd priodol;

- sicrhau bod yr holl wybodaeth, cyfarwyddyd a hyfforddiant angenrheidiol yn cael eu rhoi i reolwyr safle/adeilad, ynghyd ag unrhyw weithwyr y gallan nhw ddirprwyo dyletswyddau iddyn nhw, er enghraifft, gwirio tymheredd y dŵr yn yr adeilad a llifolchi er mwyn rheoli Clefyd y Lleng Filwyr, eu galluogi i gynnal y ddyletswydd honno'n briodol ac i ddeall y camau sydd raid eu cymryd os yw'r gwiriadau yn dangos y gall fod problem; a chadw cofnodion o'r holl wybodaeth, cyfarwyddyd a hyfforddiant o'r fath.

- 2.7 Bydd rheolwyr safle/adeilad yn cysylltu â'r Garfan Clefyd y Lleng Filwyr i sicrhau eu bod nhw, ynghyd ag unrhyw weithwyr y maen nhw'n dirprwyo unrhyw ddyletswydd rheoli Clefyd y Lleng Filwyr iddyn nhw, yn derbyn yr holl wybodaeth, cyfarwyddyd a hyfforddiant angenrheidiol i'w galluogi i gyflawni'r ddyletswydd honno'n briodol.

Bydd hyn yn arbennig o bwysig pan fydd rhywun newydd yn cael ei benodi i swydd rheolwr safle/adeilad neu i weithiwr newydd a fydd ar ddyletswydd rheoli Clefyd y Lleng Filwyr, er enghraifft, gofalwr newydd.

- 2.8 Rhaid i reolwyr safle/adeilad nodi'r dyddiad arfaethedig ar gyfer ailasesu'r adeilad a rhaid iddyn nhw sicrhau bod yr ailasesiad yn cael ei gynnal pan fydd y dyddiad yna'n cyrraedd gan gysylltu â'r Garfan Clefyd y Lleng Filwyr a/neu'r ymgynghorydd arbenigol yn ôl yr angen.

- 2.9 Mae rheolwyr safle/adeilad yn gyfrifol am sicrhau bod y gwiriadau o ran tymheredd y dŵr yn yr adeilad a'r gwaith llifolchi yn cael eu gweithredu'n gywir a'u cofnodi. Maen nhw hefyd yn gyfrifol am gymryd camau priodol, gan gynnwys rhoi gwybod i'r Garfan Clefyd y Lleng Filwyr, pe bai problem yn codi a chofnodi'r camau hynny.

Mae rheolwyr safle/adeilad yn gyfrifol am sicrhau bod trefniadau addas ar waith pan fydd y sawl sy'n cyflawni'r dyletswyddau fel arfer (neu unigolion sy'n cael eu dirprwyo i wneud hynny) yn absennol oherwydd gwyliau neu salwch.

- 2.10 Os yw rheolwyr safle/adeilad yn dirprwyo dyletswyddau o ran gwirio tymheredd y dŵr a chynnal y gwaith llifolchi a chymryd camau priodol a'u cofnodi, rhaid iddyn nhw sicrhau drwy fonitro bod y dyletswyddau yma'n cael eu cyflawni'n briodol.

Yn ogystal â chynnal gwaith monitro o'r fath, rhaid i reolwyr safle/adeilad ddarparu tystiolaeth eu bod nhw'n gwneud hynny (un ffordd o ddarparu tystiolaeth o fonitro fyddai llofnodi'r daflen berthnasol yn y llyfr cofnodi).

- 2.11 Rhaid i Gyfarwyddwyr Cyfadran perthnasol sicrhau bod rheolwr safle neu adeilad, fel y bo'n briodol, yn cael ei benodi i gymryd cyfrifoldeb am y mesurau rheoli Clefyd y Lleng Filwyr mewnol (os oes angen, mewn ymgynghoriad â Chyfarwyddwyr Cyfadran eraill, er enghraifft, pan fydd gwasanaethau sy'n perthyn i wahanol gyfadrannau yn gweithio yn yr un adeilad).

Mewn ysgol, y person sy'n gyfrifol am reoli mesurau rheoli Clefyd y Lleng Filwyr mewnol yw'r Pennaeth.

- 2.12 Rhaid i reolwyr yr is-adrannau perthnasol yn yr Adran Eiddo Corfforaethol roi gweithdrefnau ar waith i sicrhau bod ymgynghori a chydweithredu addas yn digwydd i alluogi rheoli Clefyd y Lleng Filwyr pan na fydd eiddo neu system yn cael ei defnyddio ('mothballing'), boed hynny dros dro neu'n barhaol, cyhyd â bod yr adeilad neu'r system ddŵr yn parhau i fod dan reolaeth y Cyngor.
- 2.13 Rhaid i reolwyr is-adrannau perthnasol yn yr Adran Eiddo Corfforaethol roi gweithdrefnau ar waith i sicrhau bod ymgynghori a chydweithredu addas pan fydd eiddo yn cael ei brydlesu, neu lle mae prydlesi yn cael eu hail-drafod, i sicrhau bod y cyfrifoldebau a'r dyletswyddau ar gyfer rheoli Clefyd y Lleng Filwyr yn cael eu nodi'n glir a'u deall, a lle'r Cyngor sy'n gyfrifol am y cyfrifoldebau a'r dyletswyddau, rhaid iddo sicrhau eu bod nhw'n cael eu cyflawni'n briodol.
- 2.14 Pan fydd eiddo presennol yn cael ei newid neu'i ymestyn, rhaid i reolwyr yr is-adrannau perthnasol yn yr Adran Eiddo Corfforaethol sicrhau bod manylion perthnasol y cynlluniau yn cael eu rhoi i'r Garfan Clefyd y Lleng Filwyr er mwyn iddyn nhw ystyried y goblygiadau o ran rheoli Clefyd y Lleng Filwyr.

Rhaid i reolwyr sicrhau bod manylion cynllunio o'r fath yn cael eu rhoi i'r Garfan Clefyd y Lleng Filwyr yn ddigon cynnar i ganiatáu i'r swyddogion sy'n rhan o'r garfan roi sylwadau ar y cynllun cyn i'r gwaith perthnasol ddechrau.

- 2.15 Pob Cyfarwyddwyr neu bob Pennaeth Gwasanaeth unigol sy'n gyfrifol am roi gofynion y polisi yma ar waith ac am baratoi strategaeth weithredu.



### **3. COFNODION**

3.1 Dylai'r cofnodion sy'n cael eu cadw gynnwys y manylion yma:

- yr unigolyn/unigolion cyfrifol sydd wedi ei benodi / eu penodi i gynnal yr asesiad risg a rheoli'r cynllun ysgrifenedig a'r roi ar waith;
- unrhyw ganfyddiadau arwyddocaol a ddaw i'r amlwg yn yr asesiad risg;
- y cynllun ysgrifenedig a'i weithrediad;
- a yw'r system ddŵr yn cael ei defnyddio neu beidio;
- canlyniadau unrhyw archwiliad monitro, prawf neu wiriad sy'n cael eu cynnal, a'r dyddiadau.

3.2 Dylai'r cofnodion uchod gael eu cadw tra byddan nhw'n gyfredol ac am o leiaf ddwy flynedd wedi hynny ac, yn achos unrhyw archwiliad monitro, prawf neu wiriad (gan gynnwys y dyddiadau), am o leiaf bum mlynedd.

3.3 Rhaid i gopi o'r cofnodion o'r holl wybodaeth, cyfarwyddyd a hyfforddiant sy'n cael eu rhoi i bob gweithiwr, gan gynnwys swyddogion y Garfan Clefyd y Llangefni a chan swyddogion y Garfan Clefyd y Llangefni a/neu'r ymgynghorydd arbenigol i weithwyr eraill, gael ei anfon gan y Garfan Clefyd y Llangefni i'r Adran Adnoddau Dynol er mwyn i'r cofnodion gael eu rhoi yn ffeiliau personol y gweithwyr.

Lle mae gwybodaeth, cyfarwyddyd a hyfforddiant o'r fath yn cael eu darparu gan swyddogion y Garfan Clefyd y Llangefni a/neu'r ymgynghorydd arbenigol mewn modd anffurfiol, er enghraifft, ar gyfer gofalu lle na fydd tystysgrifau yn cael eu rhoi ar adegau, dylai tystiolaeth o hyfforddiant o'r fath gael ei hanfon at yr Adran Adnoddau Dynol beth bynnag, er enghraifft, taflen bresenoldeb wedi'i llofnodi os sesiwn hyfforddiant grŵp yw e, neu nodiadau mewn dyddiadur, ac yn y blaen.

### **4. CYNGOR**

4.1 Mae modd cael cyngor ar weithredu'r polisi yma oddi wrth y Garfan Iechyd a Diogelwch, Adnoddau Dynol, Tŷ Elái, Trewiliam, CF40 1NY, ffôn 01443 425531.

4.2 Mae modd cael cyngor technegol sy'n ymwneud â Chlefyd y Llangefni a/neu'r ymgynghorydd arbenigol oddi wrth y Garfan Clefyd y Llangefni, Cynnal a Chadw Corfforaethol, Tŷ Trevithick, Abercynon, Aberpennar, CF45 4UQ, ffôn 01443 281155.

**RHESTR WIRIO RHEOLWYR SAFLE/ADEILAD**

	✓ Fel y bo'n briodol		
	Dd/B	✓	x
<ul style="list-style-type: none"> <li>Oes asesiad risg Clefyd y Lleng Filwyr wedi cael ei gynnal yn yr adeilad?</li> </ul>			
<ul style="list-style-type: none"> <li>Ydych chi wedi cael copi caled o'r asesiad a llyfr log cofnodi ar gyfer y safle?</li> </ul>			
<ul style="list-style-type: none"> <li>Ydych chi'n gwybod beth yw dyddiad arfaethedig cynnal yr ailasesiad a bod dyletswydd arnoch chi i gynorthwyo ynghylch sicrhau ei fod e'n cael ei gynnal erbyn y dyddiad cywir, gan gysylltu â'r Garfan Clefyd y Lleng Filwyr a/neu'r ymgynghorydd arbenigol, yn ôl yr angen?</li> </ul>			
<ul style="list-style-type: none"> <li>Ydych chi, neu, os yw'n briodol, unrhyw un rydych chi wedi dirprwyo dyletswyddau iddo o ran cynnal a chofnodi gwiriadau o dymheredd y dŵr a'r gwaith llifolchi, a, lle bo'n briodol, cymryd camau a chofnodi manylion, wedi cael yr wybodaeth, cyfarwyddyd a hyfforddiant angenrheidiol gan y Garfan Clefyd y Lleng Filwyr a/neu'r ymgynghorwyr arbenigol?</li> </ul>			
<ul style="list-style-type: none"> <li>Ydych chi'n sicrhau bod yr holl wiriadau o ran tymheredd y dŵr a'r gwaith llifolchi mewn perthynas â rheoli Clefyd y Lleng Filwyr yn cael eu cynnal a'u cofnodi'n briodol a, lle bo angen, bod camau priodol yn cael eu cymryd a'r manylion yn cael eu cofnodi, gan gynnwys ystod absenoldeb unrhyw unigolion sy'n absennol?</li> </ul>			
<ul style="list-style-type: none"> <li>Lle rydych chi wedi dirprwyo'r ddyletswydd uchod i weithiwr arall, ydych chi'n darparu tystiolaeth eich bod chi'n cynnal gwaith monitro i sicrhau bod y gwaith yma'n cael ei wneud yn gywir?</li> </ul>			
<ul style="list-style-type: none"> <li>Ydych chi'n sicrhau bod cofnodion o unrhyw archwiliad, prawf neu wiriad monitro sy'n cael ei gynnal gan weithwyr perthnasol, a'r dyddiadau, yn cael eu cadw am o leiaf bum mlynedd?</li> </ul>			

Wedi'i lenwi gan: \_\_\_\_\_  
(Llofnod)

Wedi'i gadarnhau gan: \_\_\_\_\_  
(Llofnod)

Enw: \_\_\_\_\_  
(Llythrennau bras)

Enw: \_\_\_\_\_  
(Llythrennau bras)

Swydd: \_\_\_\_\_

Swydd: \_\_\_\_\_

Dyddiad: \_\_\_\_\_

Dyddiad: \_\_\_\_\_